YSGOL PENRHYNCOCH

Bu diwedd tymor y Nadolig yn un prysur iawn fel arfer yn yr ysgol. Ar nos Wener, Rhagfyr 9ed aeth dau dîm o fechgyn i gystadlu yng nghystadleuaeth pêl droed pump bob ochr yng nghampfa'r Brif-ysgol. Yna ar y Sadwrn dilynol bu nifer o'r plant yn cystadlu yng ngala nofio Clwb Nofio Aberystwyth gan wneud gwaith clodwiw iawn ac ennill medalau am eu hymdrechion.

Cynhaliwyd Parti'r Adran ar nos Lun, y 12ed o Ragfyr. Paratowyd gwledd i'r plant gan y mamau ac yr oedd y byrddau'n llawn o bob math o ddanteithion. Wedi'r tê blasus cafwyd disgo yng ngofal Mr Henry Davies, Meurig Cottage. Yn ddiweddarach trodd Siôn Corn i mewn i'n gweld ym mherson Mr D.J. Evans, Y Bwthyn gan ddosbarthu ei sachaid anrhegion ymysg y plant. Cyn troi am adre diolchodd Mrs E.A. Evans i bawb am eu haelioni eleni eto.

Y noson ddilynol cynhaliwyd ein Cyflwyniad Nadolig yn Eglwys St. Ioan. Braf oedd gweld yr eglwys yn llawn a stori'r Nadolig mor newydd ag erioed drwy gyfrwng darllen-iad, cân, adroddiad a drama. Offrymwyd y weddi gan y Parch D. Francis.

Troi tua'r sinema yn Aberystwyth fu ein hanes ar fore Mercher y 14eg gan fwynhau orig o flaen y sgrîn fawr.